Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

8 Gorffennaf 2008

Gallai ysgolion yng Nghymru wneud mwy i gael y gorau o gyllid Rhagori

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, mae arolygwyr wedi canfod bod ysgolion sy'n gweithredu prosiectau Rhagori yn adrodd am welliannau.

Menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg) sydd â'r nod o wella lefelau cyflawniad ymhlith y rheiny sydd dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Gan ddefnyddio canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim fel dangosydd o amddifadedd cymharol, buddsoddwyd dros £14m mewn ysgolion cymwys bob blwyddyn ers 2006. Yn 2007, cafodd dros 500 o ysgolion gyllid Rhagori. Mae ysgolion wedi gwario'r cyllid mewn amryw o wahanol ffyrdd, o gyflogi mwy o gynorthwywyr addysgu a staff cynorthwyo dysgu i brynu offer newydd.

Dywedodd Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi: 'Mae menter Rhagori yn gam cadarnhaol mewn targedu adnoddau at y rheiny sydd eu hangen fwyaf. Mae rhai arwyddion calonogol o gynnydd yn yr adroddiad hwn. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a ariennir gan Rhagori yn gwneud cynnydd da mewn dau draean o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ac yn aml, ceir manteision cadarnhaol ar ffurf ymddygiad ag agweddau gwell.

'Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg o'r adroddiad yw nad yw ysgolion yn ddigon trylwyr wrth ffocysu eu hamser a'u hymdrech ar y dysgwyr sydd dan yr anfantais economaidd-gymdeithasol mwyaf, fel y nodwyd gan yr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae ysgolion yn dueddol o ganolbwyntio ar y rheiny sydd â chyflawniad addysgol isel, a chan amlaf maent yn methu cefnogi disgyblion difreintiedig a allai fod yn cyflawni'n uwch na'r safonau lleiaf ond sydd, er hynny, yn

tanberfformio'n sylweddol o gymharu â'u potensial. Mewn rhai achosion, gwariwyd cyllid ar staff neu adnoddau dysgu nad ydynt o fawr o fudd uniongyrchol i ddysgwyr Rhagori.

'Hoffem weld ysgolion yn monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud yn fwy trylwyr.'

Nid oes digon o dystiolaeth ystadegol i ddangos effaith Rhagori ar ganlyniadau hyd yma, ond mae adborth gan ysgolion yn dangos y bu gwelliannau. Er enghraifft, mae un ysgol uwchradd wedi gweld gostyngiad o 50% yng nghyfradd y gwaharddiadau ers i'r cynllun ddechrau.

Ar gyfer rhai awdurdodau addysg lleol, mae tystiolaeth y gwelliant yn ystod cyfnod y grant yn fwy eglur, gyda 38% o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gadael yr ysgol gyda phump TGAU gradd A*-C o gymharu â 24% tair blynedd yn ôl. Yn yr un modd, gadawodd 1,000 o ddisgyblion ysgolion yn Abertawe heb unrhyw TGAU yn 2005, ond disgynnodd y ffigur hwn yn sylweddol i 480 yn 2007.

Fodd bynnag, mae cyfradd y gwelliant wedi arafu neu wrthdroi mewn traean o awdurdodau lleol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae gormod o lawer o amrywiaeth yn y canlyniadau i ddysgwyr sydd dan anfantais gymdeithasol ar lefel TGAU ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion:

- dargedu adnoddau'n fwy penodol at ddysgwyr sydd dan anfantais gymdeithasol;
- cynllunio'n fwy systematig er mwyn cynnal manteision gweithgareddau Rhagori wedi i gyfnod y cyllid ddod i ben; ac
- uchafu cyflawni'r dysgwyr hynny sydd dan anfantais gymdeithasol sydd eisoes yn gwneud cynnydd cymedrol neu dda ond sydd â'r potensial i gyflawni llawer mwy.

Mae Estyn hefyd yn argymell:

- y dylai awdurdodau lleol fonitro gwaith Rhagori mewn ysgolion yn fanylach lle mae'r awdurdod lleol yn gwybod bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn wan; ac

- y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru osod targed cenedlaethol i wella perfformiad dysgwyr sydd dan anfantais gymdeithasol yn gyffredinol, fel y nodir gan yr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion:

- Mae Estyn, sef swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Cyhoeddir adroddiad Estyn, 'Effaith Rhagori' ar 8 Gorffennaf a bydd ar gael yn www.Estyn.co.uk

- Mae cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn aml yn cael ei defnyddio fel procsi ar gyfer amddifadedd cymharol gan y gall disgyblion gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael budd-dal penodedig y wladwriaeth, fel cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith, o ganlyniad i incwm cymharol isel. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ffurfio cyfran eithaf mawr o boblogaeth ysgolion. Yn 2006/2007, roedd gan 17.4% o ddisgyblion o oed ysgol statudol hawl i gael prydau ysgol am ddim (67,559 o ddisgyblion). O'r rhain, roedd 55% mewn ysgolion cynradd, 43% mewn ysgolion uwchradd a 2% mewn ysgolion arbennig.

- Ym mis Mai 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i ryddhau cyllid i dargedu disgyblion difreintiedig er mwyn codi lefel eu perfformiad. Mae'r grant hwn yn cael ei adnabod fel Rhagori, sef 'Codi Cyflawniad a Safonau Unigol mewn Addysgu' (RAISE). Cyfanswm y grant i ysgolion o fenter Rhagori yn 2006-07 oedd £14.6m, ac £14.4m yn 2007-08. Clustnodwyd £1m ar gyfer plant mewn gofal hefyd.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau o ymweliadau Arolygwyr EM â sampl o ysgolion ac awdurdodau lleol i archwilio ac arfarnu gwaith Rhagori. Ymwelodd Arolygwyr EM â 19 ysgol gynradd, 10 ysgol uwchradd, chwe ysgol arbennig a phum awdurdod lleol.

- Mae copïau llawn o adroddiadau'r arolygiadau ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464